Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Hydref 8fed, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater
Roger Phillips (Clerc y Dref.) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Julia Jones, Cyng Richard Wallace, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy

Cof 147/ Hydref / 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/19797 Estyniad a newidiadau i adeilad rhestredig gradd 2 – Llwynhelig, Penybanc –
Sylw : Dim gwrthwynebiadau cyhyd a'u bod yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol

E/19799 Dymchwel ac adeiladu cegin newydd (cytunwyd ynghynt), lleihau uchder y to i'r adain Fictoraidd a gwaith cysylltiedig yn Llwynhelig, Penybanc
Sylw : Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu cyfredol

E/19846 Estyniad deulawr i anheddle a thramwyfa/man parcio newydd yn 6, Y Trallwng
Sylw : Yr un sylwadau ag i'r cais a ystyriwyd ar Ebrill 9fed, 2008. Dyw hi ddim mor hawdd i draffig sy'n troi i mewn i Heol Rhosmaen weld o ganlyniad i'r cynlluniau hyn. Mae'n ymddangos fod yna dir ychwanegol i'r cais gwreiddiol wedi'i ddangos ar y cynlluniau.

Cof 148 / Hydref/ 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

E/19213 Cais am addasu (defnydd cyfredol - uned diwydiant ysgafn, swyddfeydd, ystafelloedd storio, 3 uned breswyl) yn 3 swyddfa a 5 uned breswyl yn 3-4 Heol Siôr
CANIATAWYD

E/19570 Estyniad ystafell wydr yng nghefn Tŷ yn 37, Heol Diana
CANIATAWYD

E/19571 Cais am dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnydd arfaethedig neu ddatblygiad/allotment yn Home Farm, Parc Dinefwr
GWRTHODWYD

Cof 149 / Hydref/ 08 Ni Thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 150 / Hydref / 08 Doedd yna ddim Apeliadau Cynllunio

Cof 151 / Hydref/ 08 Materion Trafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Cau Heol y Farchnad dros dro rhwng 1700 ddydd Gwener 21ain Tachwedd tan 1800 ddydd Sadwrn 22ain Tachwedd ar gyfer Gŵyl y Synhwyrau.
2. Adroddodd y Swyddog Technegol fod CSC wedi gosod golau modern yn lle'r golau traddodiadol ar wal y Siop Anifeiliaid Anwes yn Heol Caerfyrddin. Y Clerc i ysgrifennu at CSC yn gofyn iddynt newid y golau i un sy'n addas i ardal gadwraeth.

Cof 152 / Hydref / 08 Doedd yna ddim Materion Trwyddedu

Cof 153 / Hydref /08 Adroddiad y Swyddog Technegol
Mae Mr Davies wedi gofyn i gwmni Hurleys gynnig costau ar gyfer gwneud gwaith adfer i foiler Neuadd y Sir. Mae hyn gan nad yw cwmni Lorne Stewart wedi ymateb i archeb (DD 190) a anfonwyd atynt ar y 14eg o Orffennaf.
Mae'r gwaith ar gychwyn ar y llawr blociau yn Neuadd y Sir gan Morris, Prospect Builders. Hysbyswyd Mr Davies gan Swyddog Llwybrau Troed CSC y byddai ei Rhodwyr yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw llwybrau troed y Dref o fis Ebrill nesaf. Bydd y pwyllgor yn mynnu bod eu gwaith o'r un safon â'r hyn a wneir ar hyn o bryd gan Mr Hugh Gwynne.
Cytunodd y Pwyllgor ag awgrym Mr Davies i ddiffodd golau'r Eglwys am 11pm yn hytrach na 12 canol nos er mwyn arbed ynni.

Cof 154 / Hydref / 08 Neuadd y Sir
Cyflwynodd y Swyddog Technegol adroddiad ar fanylion cyfrifoldebau'r sawl sy'n dal les Neuadd y Sir parthed gwaith cynnal a chadw gyda diffiniad clir o ran cyfrifoldebau'r Cyngor. Cytunwyd i sefydlu is-grŵp i drafod yr adroddiad gyda Cambria. Bydd y Cyng Colin Jenkins, Cyng Ieuan Gwyn, y Swyddog Technegol, y Clerc, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cyng Ros Bellamy yn aelodau o'r grŵp.

Cof 155 / Hydref/ 08 Gohebiaeth

1. Rheolwr Cynorthwyol Cynnal a Chadw Tiroedd CSC, Gerwyn Thomas – ymateb i lythyr o ddiolch y Maer am y gwaith a wnaed ym Mharc Penlan i waredu'r coed a'r llwyni sydd wedi'u difrodi. Awgrymodd Mr Thomas bod y Cyngor yn ystyried gwneud cais am grant er mwyn cwblhau'r gwaith. Yna gwneir y cais am y Wobr Ymddiriedolaeth Ddinesig.
2. Adroddiad LlCC/CSC ar Amgylcheddau Glân. Penderfynnwyd gofyn i'r Cyng Dawn Wallace archwilio'r adroddiad.
3. Cyng Roy Davies – llythyr yn pryderu am y diffyg cyfathrebu gan CSC parthed cyd ymgynghori ar ddatblygiadau yn y Dref yn y dyfodol. Cyng Chris Parish i fynychu cyfarfod Rhwydwaith Tywi yng Ngwynfe i godi pryderon y Cyng Davies.

Cof 156 / Hydref / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 pm.